



Ysgol Pentreuchaf

63. Polisi Darparu ar gyfer Rhieni Ifanc a Menywod Beichiog.

1. Cyflwyniad.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â rhieni ifanc a menywod beichiog o fewn ysgolion Gwynedd.

2. Cyd-destun.

2.1 Mae gan Brydain y raddfa uchaf o ferched yn beichiogi yn eu harddegau yng ngorllewin Ewrop. Mae'r sefyllfa yng Nghymru ychydig yn waeth na Lloegr; mae Gwynedd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

2.2 Mae y rhan fwyaf o famau o oed ysgol yn gadael addysg yn 16 oed heb gymwysterau. Yn aml hefyd mae eu cymhelliant yn isel. Golyga hyn bod eu siawns o lwyddo yn y farchnad lafur yn isel.

2.3 Yn aml, mae hunan barch y merched hyn yn wael. Mewn nifer fach o achosion mae gan y merched ifanc fwy o gymhelliant ynglŷn â'u haddysg ac maent yn awyddus i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

3. Datganiad o fwriad.

3.1 Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau tuag at rieni ifanc a menywod beichiog i sicrhau eu bod yn cael mynediad at y cwricwlwm cenedlaethol ac yn cyrraedd eu potensial addysgol, ac yn sicrhau eu bod yn cael y gynhaliath addysgol briodol pan yn feichiog.

3.2 Bydd hefyd angen cynhaliath briodol ar ddynion ifanc os daw'n wybyddus eu bod ar fin bod yn dad.

3.3 Ceisir hefyd sicrhau bod gyd weithio effeithiol rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud a rhieni ifanc.

4. Fframwaith Statudol.

Deddf Addysg 1996 Deddf Addysg 1998 Deddf Plant 2004.

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Ni ddylai pobl ifanc sy'n dod yn rhieni golli'r cyfle i gwblhau eu haddysg.

5.2 Dylai merch ifanc gael y cyfle i aros mewn addysg llawn amser yn ystod beichiogrwydd oni bai am amgylchiadau personol neu feddygol.

5.3 Nid yw beichiogrwydd byth yn rheswm dros waharddiad o ysgol.

5.4 Dylid rhoi dewis i ferch feichiog fynychu ysgol prif ffrwd neu ddarpariaeth fwy unigol y tu allan i'r ysgol.

5.5 Cadw enw'r disgybl ar y gofrestr waeth beth fo'r trefniadau addysgol a chadw golwg ar ei chynnydd.

6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.

6.1 Sicrhau bod pob disgybl (gan gynnwys darpar rieni) yn cael yr addysg sy'n gymwys ar eu cyfer.

6.2 Ymdrin â phob merch a ddaw'n feichiog yn yr un modd (gan gynnwys rhai â datganiad o AAA)

6.3 Bydd swyddog yn cael ei ddynodi i ddelio â materion penodol a gyfyd ynglŷn â rhieni ifanc.

6.4 Bydd y Gwasanaeth yn cadw bas data ar gynnydd pob disgybl sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol.

6.5 Bydd y Gwasanaeth yn darparu hyffoddiant i bersonau addas o fewn ysgolion.

6.6 Cydlynu gwaith partneriaethol rhwng gwahanol asiantaethau i hyrwyddo arfer dda a chanllawiau gweithredu ymarferol i ysgolion. Bydd y partneriaid yn cynnwys y canlynol

Gwasanaethau Cymdeithasol / Awdurdod Iechyd / Gwasanaeth Ieuentid / Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc / Gwasanaeth Gyrfaoedd / Colegau Addysg Bellach

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethu ysgol.

7.1 Sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl.

7.2 Rhaid i gyrrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiant gyda'r deddfau perthasol.

8. Cyfrifoldebau a dyletswyddau penaethiaid ysgolion.

8.1 Dylai pennaeth sicrhau bod anghenion rhieni ifanc yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

8.2 Dylai pob ysgol adnabod aelod o staff a fydd yn goruchwyllo ac yn monitor gweithrediad y polisi.

8.3 Bydd yr aelod staff yn goruchwyllo anghenion addysgol unrhyw ferch a fydd yn feichiog, a hefyd yn ei chyfeirio at unrhyw asiantaethau allanol a all ei helpu, os bydd angen.

8.4 Bydd hefyd yn sicrhau rhaglen unigol i'r unigolyn gyrraedd ei photensial academaidd.

8.5 Bydd yr ysgol yn creu cynllun ail intigreiddio ar gyfer y ferch wedi'r enedigaeth.

8.6 Ceisio cadw'r disgybl ar y gofrestr. Os bydd y pennaeth yn ystyried nad yw'r ysgol yn lle priodol i ferch feichiog, ni all ddod i'r farn hon ar sail iechyd a diogelwch, ac ni all ei gwahardd oherwydd ei bod yn feichiog. Gall penderfyniad ar leoliad addysgol arall gael ei wneud ar sail meddygol neu ar gais y ferch ei hun. Pe bai hyn yn digwydd bydd yr ysgol yn cadw mewn cyswllt agos â'r ferch.

9. Casgliad.

9.1 Mae darpariaeth ar ei orau pan fo'r Gwasanaeth ac ysgolion yn buddsoddi yn ddigonol i gynnal rhieni ifanc ac i sicrhau ail intigreiddio llwyddiannus yn ôl i addysg.

9.2 Gwelir canlyniadau da pan fo ysgolion yn magu agweddau cynhaliol a sensitif yn eu rhaglenni ABaCh.

9.3 Mae'r unigolyn yn fwy tebygol o gael canlyniadau addysgol da pan fo systemau cynhaliol mewn ysgol a lle gall mam ifanc fanteisio ar ddarparieth gofal dydd a thrafnidaeth gyhoeddus cyfleus

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____